Datganiad Preifatrwydd

Pwy sy'n cynnal yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a pham?

Caiff yr **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr** (ACF) ei gynnal gan Ipsos MORI, asiantaeth ymchwil annibynnol. Mae Ipsos MORI wedi eu cofrestru dan delerau'r Ddeddf Gwarchod Data ac mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau cyfrinachedd parthed â'ch gwybodaeth bersonol.

Caiff yr ACF ei gynnal gan Ipsos MORI, ond caiff ei gomisiynu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULl). Mae CCAULl yn gorff nad yw'n adrannol o'r llywodraeth, sy'n gweithredu rhai dyletswyddau statudol dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992). Mae'r ACF yn ffurfio rhan o ofynion cyfreithiol CCAULl dan y ddeddf hon i sicrhau ansawdd addysg uwch yn y prifysgolion a'r colegau mae'n eu cyllido.

Mae CCAULl hefyd wedi comisiynu'r arolwg ar ran Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Adran er Cyflogaeth a Dysgu, Gogledd Iwerddon (ACD), yr Asiantaeth Dysgu a Datblygiad er Ysgolion a Sgiliau ar gyfer Iechyd. Bydd y cyrff hyn hefyd yn defnyddio canlyniad yr arolwg ar gyfer gweithredu eu swyddogaethau statudol a gall CCAULl rannu gwybodaeth am fyfyrwyr, neu ran ohono, gyda hwy. Mae gan GCAULl, CCAUC a'r ACD rôl statudol mewn sicrhau fod ansawdd dysgu mewn addysg uwch yn cael ei asesu, a chred CCAULl a'i bartneriaid y dylai barn myfyrwyr ffurfio rhan bwysig o'r asesiad. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yn bartner yn yr arolwg.

Beth yw diben yr ACF?
Nod yr ACF yw cynorthwyo cenedlaethau o fyfyrwyr addysg uwch y dyfodol gyda'u dewisiadau allweddol ynglŷn â beth a ble i astudio, drwy eu galluogi i weld adborth dienw ar bynciau a sefydliadau. Mae'r arolwg yn rhoddi sylw i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhai sefydliadau yn yr Alban, yn ogystal â myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach. Mae'r cyrff addysg uwch, undebau myfyrwyr a'r llywodraeth wedi cytuno y dylai fod yno arolygon cenedlaethol rheolaidd o fyfyrwyr er mwyn cael eu barn ar ansawdd yr addysgu, asesu a'r gefnogaeth maent wedi eu derbyn.

Manylion cysylltu myfyrwyr
Gall CCAULl, o bryd i'w gilydd, gydweithredu â chyrff neu asiantau anstatudol eraill i weithredu ar eu rhan. Mae CCAULl wedi penodi Ipsos MORI i gynnal yr arolwg hwn. Mae CCAULl wedi gofyn i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach i anfon manylion cysylltu myfyrwyr ymlaen i Ipsos MORI er mwyn eu galluogi i gynnal yr arolwg hwn. Bydd CCAULl, sef yr awdurdod statudol, yn dal i reoli unrhyw wybodaeth bersonol a drosglwyddir dan gytundeb ag Ipsos MORI. At ddibenion yr ACF, mae Ipsos MORI yn gweithredu fel asiant arolwg ar ran CCAULl. Mae gan GCAULl gytundeb gwarchod data mewn lle gydag Ipsos MORI, sy'n darparu'r amddiffyniad angenrheidiol dan y gyfraith i warchod gwybodaeth myfyrwyr. Er enghraifft, cânt eu gwahardd dan amodau'r cytundeb gyda ChCAULl rhag defnyddio data'r ACF sydd yn eu meddiant at unrhyw ddibenion eraill.

Caiff manylion cysylltu myfyrwyr a chanlyniadau'r arolwg a ddarperir ar ffurf copi caled yn uniongyrchol i GCAULl neu unrhyw asiant, eu cadw am gyfnod heb fod yn hwy na deuddeg mis at ddibenion archwiliad, ac yna cânt eu dinistrio ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Ni chaiff eich manylion personol ond eu defnyddio at ddibenion yr ACF. Pan gaiff yr arolwg ei gwblhau, caiff pob manylion cysylltu myfyrwyr eu dinistrio, a bydd Ipsos MORI yn dileu pob data arall sy'n perthyn i fyfyrwyr o'u systemau cyfrifiadurol a'u trosglwyddo i GCAULl. Bydd CCAULl yn cadw'r data yma i'r dibenion a nodwyd uchod.

Optio allan o'r arolwg
Gall myfyriwr optio allan o'r arolwg ar unrhyw adeg, *ond mae Ipsos MORI yn gofyn iddynt ddarparu cadarnhad o bwy ydynt (drwy gadarnhau eu dyddiad geni) er mwyn sicrhau fod y manylion cywir yn cael eu dileu o'r gronfa-ddata*. Mae'n bwysig fod myfyrwyr yn darparu eu dyddiad geni i gadarnhau eu hunaniaeth fel y gall yr ACF ddarparu gwybodaeth gadarn ar gyfer darpar fyfyrwyr a'r rheiny sy'n eu cynghori, i'w galluogi i wneud dewisiadau doeth. Os yw myfyrwyr yn optio allan ar unrhyw adeg, caiff pob gwybodaeth bersonol (manylion cysylltu, dyddiad geni ayyb.) eu dileu'n ddiogel a pharhaol, ac ni fydd Ipsos MORI yn cysylltu â hwy eto.

Canlyniadau'r arolwg
Bydd CCAULl a'r cyrff uchod yn defnyddio canlyniadau'r arolwg at y dibenion canlynol:

- Cyhoeddi canlyniadau cyfunol a dienw o'r arolwg ar wefan Unistats (www.unistats.com). Bydd CCAULl yn darparu gwybodaeth i *Hotcourses* sy'n gweithio ar ran *UCAS Enterprises Ltd* i'r diben hwn.
- Dadansoddiad ystadegol. Gall hyn olygu rhyddhau data i ddefnyddwyr cydnabyddedig eraill, a all gynnwys ymchwilwyr academaidd. Bydd CCAULl yn cadw rheolaeth ar y data dan gytundeb â defnyddwyr o'r fath, neu os yw'r defnyddiwr hwnnw'n is-gontractio, byddwn yn sicrhau fod ganddynt yr un rheolau gweithredu. Bydd pob data a gynhwysir mewn adroddiadau yn ddienw ac wedi ei gyfuno.
- Darparu adborth cryno i sefydliadau ac undebau myfyrwyr unigol. Caiff yr wybodaeth hon ei darparu i sefydliadau ac undebau myfyrwyr i'w helpu i nodi sut y gallant wneud gwelliannau. Caiff yr adborth yma ei gyfuno a'i gyflwyno'n ddienw, gan sicrhau na ellir adnabod unrhyw fyfyriwr unigol. Gall y canlyniadau hyn gynnwys unrhyw sylwadau a wneir gan fyfyrwyr ar ddiwedd yr holiadur. Ni roddir cydnabyddiaeth i fyfyrwyr unigol am eu sylwadau, a buasem yn cynghori myfyrwyr i beidio gwneud sylwadau a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'w hadnabod yn unigol.

Ni fydd CCAULl nac unrhyw rai o'r cyrff uchod yn defnyddio gwybodaeth am fyfyrwyr mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar fyfyrwyr unigol. Bydd CCAULl, sef yr awdurdod statudol, yn cadw rheolaeth ar unrhyw ddata personol a drosglwyddir dan gytundeb ag Ipsos MORI.

Cwestiynau Ychwanegol a Chwestiynau sy'n Benodol i Sefydliadau
Yn 2010, bydd rhai sefydliadau yn holi cwestiynau ychwanegol sy'n benodol i'w sefydliad hwy. Gwneir hyn wrth ddefnyddio'r dull ar-lein yn unig. Bydd hyn yn darparu adborth gyfrinachol ychwanegol i sefyliadau. Bydd CCAULl a'r cyrff uchod yn defnyddio'r wybodaeth at y dibenion canlynol:

- Darparu adborth cryno i sefydliadau ac undebau myfyrwyr unigol. Caiff yr wybodaeth hon ei darparu i sefydliadau ac undebau myfyrwyr i'w helpu i nodi sut y gallant wneud gwelliannau.
- Dadansoddiad ystadegol. Gall hyn olygu rhyddhau data i ddefnyddwyr cydnabyddedig eraill, a all gynnwys ymchwilwyr academaidd. Bydd CCAULl yn cadw rheolaeth ar y data dan gytundeb â defnyddwyr o'r fath, neu os yw'r defnyddiwr hwnnw'n is-gontractio, byddwn yn sicrhau fod ganddynt yr un rheolau gweithredu. Bydd pob data a gynhwysir mewn adroddiadau yn ddienw ac wedi ei gyfuno.
- Ni chaiff yr wybodaeth yma ei chyhoeddi ar wefan Unistats.

Gwneud sylwadau/cwynion ynglŷn â'r AMC
Mae Ipsos MORI, CCAULl a'r cyrff uchod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau parhaus i'r ACF. Os oes gennych chi sylwadau a/neu gwynion, yna dylech gysylltu ag Ipsos MORI ar thestudentsurvey@ipsos.com.

Eich hawliau dan y Ddeddf Gwarchod Data 1998
Dan Ddeddf Gwarchod Data 1998 mae gennych yr hawl i gopi o'r data sy'n cael ei gadw amdanoch gan GCAULl, am daliad bychan. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â'r defnydd o ddata at y dibenion hyn, neu os hoffech gael copi o'r wybodaeth a ddarparwyd yn uniongyrchol i ni, yna mae croeso i chi gysylltu â ChCAULl drwy anfon e-bost i nss@hefce.ac.uk neu gallwch 'sgrifennu at y Swyddog Gwarchod Data / Data Protection Officer, HEFCE, Northavon House, Coldharbour Lane, Bristol BS16 1QD